

BRO MORGANNWG
CYNLLUN DATBLYGULLEOL NEWYDD 2021-2036

FFINIAU MANWERTHU

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP47



Crynodeb Gweithredol

- i. Mae'r Papur Cefndir hwn yn un o gyfres a gynhyrchwyd gan Gyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r polisïau a'r dyraniadau safleoedd yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2021-2036. Bydd y casgliadau o'r adolygiad hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLIN i nodi hyd a lled ffiniau canolfannau ar gyfer yr ardaloedd manwerthu dynodedig yn y Fro.
- ii. Mae'r ddarpariaeth siopa yn y Fro wedi'i chanolbwyntio i raddau helaeth yng nghanol pedair prif dref, sef y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen, sydd wedi'u nodweddu gan amrywiaeth o fanwerthwyr lleol a chenedlaethol sy'n gwasanaethu'r trefi hyn. Y tu allan i'r cyfleusterau manwerthu ychwanegol hyn mae canolfannau pentrefi, lleol a chymdogaethau llai ar draws aneddiadau'r Fro. Mae'r rhain yn chwarae rôl bwysig wrth wasanaethu cymunedau lleol ac maent wedi'u nodweddu gan fanwerthwyr annibynnol. Yn olaf, fel rhan o'r dirwedd fanwerthu, mae ardaloedd manwerthu Ymyl Canolfannau a Thu Allan i Drefi sy'n cynnwys parciau manwerthu y tu allan i ganol aneddiadau sy'n gwasanaethu dalgylch sy'n ymestyn y tu hwnt i un dref neu gymdogaeth yn unig.
- iii. Mae'r adolygiad hwn yn gwerthuso ffiniau a ffryntiadau presennol Canolfan Fanwerthu Bro Morgannwg yn seiliedig ar yr Astudiaeth Fanwerthu a Hamdden a gynhaliwyd gan Nexus ym mis Mehefin 2023 a'r argymhellion a roddwyd o ganlyniad. Gwnaeth rhan o Adroddiad Nexus argymhellion mewn perthynas â dynodiad ffryntiadau cynradd ac eilaidd a lleoliad ffiniau Canolfannau Manwerthu Trefi ac Ardaloedd.
- iv. Adolygodd Cyngor Bro Morgannwg yr argymhellion a wnaed gan Nexus ac yn y papur hwn mae wedi cyflwyno'r newidiadau i'w gwneud i'r canolfannau hyn. Yn ogystal, adolygodd y Cyngor y canolfannau cymdogaethau, lleol a phentrefi a'r canolfannau ymyl trefi a thu allan i drefi. Gwnaed newidiadau yn seiliedig ar berthnasedd y ffiniau presennol ac a oeddent yn briodol i'r ddarpariaeth fanwerthu bresennol yn y canolfannau.
- v. O ganlyniad, mae'r papur hwn yn arwain at ddiwygiadau i ffiniau ar draws yr amrywiaeth o ganolfannau manwerthu i adlewyrchu'r defnyddiau newidiol ar draws darpariaeth fanwerthu yn y Fro. Mae'n cwmpasu unrhyw ailddosbarthu neu ddileu canolfannau manwerthu yn yr hierarchaeth a hefyd dileu dynodiad ffryntiadau cynradd ac eilaidd. Mae'r canolfannau manwerthu wedi'u hailddiffinio hyn yn adlewyrchu'r rhai arfaethedig i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

